ATODLEN

SAFONAU YSGOL ANNIBYNNOL

Llesiant, iechyd a diogelwch disgyblion

3.—(1) Mae llesiant, iechyd a diogelwch disgyblion yn yr ysgol yn bodloni'r safon os bodlonir y gofynion yn is-baragraffau (2) i (9).

(2) Rhaid i'r ysgol lunio polisi ysgrifenedig, a'i weithredu'n effeithiol, er mwyn —

(a) atal bwlio, drwy ystyried canllawiau cylchlythyr 23/03 y Cynulliad Cenedlaethol "Parchu eraill, canllawiau gwrth-fwlio";

(b) diogelu a hybu llesiant y plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, gan gydymffurfio â chylchlythyr 52/95 y Swyddfa Gymreig "Protecting Children from Abuse: the Role of the Education Service";

(c) diogelu a hybu iechyd a diogelwch disgyblion sy'n ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, drwy ystyried cylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol "Iechyd 2/99 a diogelwch disgyblion ar ymweliadau ysgol: Arweiniad ac Arferion Da"; a

(ch) hybu ymddygiad da ymhlith y disgyblion a disgrifio'r camau sydd i'w cymryd os bydd disgybl yn camymddwyn.

(3) Os bydd ysgol yn darparu llety byrddio, wrth ddarparu'r llety hwnnw rhaid ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Byrddio 2003(**1**) neu, os yw'n briodol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl 2003(**2**).

(4) Rhaid i'r ysgol ystyried unrhyw ganllawiau gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfrifoldebau a phwerau ysgolion ym maes iechyd a diogelwch.

(5) Rhaid i'r ysgol fod yn foddhaol o ran diogelwch rhag tân, a bod hyn wedi'i gydnabod yn —

(a) asesiad risgiau'r ysgol o dan reoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (**3**) i'r graddau y mae'n berthnasol i rwymedigaethau o dan Ran II o Reoliadau Rhagofalon Tân (y Gweithle) 1997(**4**)); a

(b) unrhyw adroddiad a roddwyd gan yr Awdurdod Tân.

(6) Rhaid bod gan yr ysgol bolisi Cymorth Cyntaf boddhaol a rhaid iddi ei roi ar waith yn effeithiol.

(7) Rhaid trefnu bod staff yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu goruchwylio yn briodol ac yn effeithiol.

(8) Rhaid i'r ysgol gadw cofnodion ysgrifenedig o'r cosbau a roddwyd i ddisgyblion am dramgwyddau disgyblaeth difrifol.

(9) Rhaid i'r ysgol gadw cofrestr derbyn a chofrestr presenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 (**5**).

(**1**) ISBN 0 7504 3077 X ar gael ar http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicycarestandards/content/regulationsfinal-e.htm.
(**2**) ISBN 0 7504 3076 1 ar gael ar http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicycarestandards/content/regulationsfinal-e.htm.
(**3**) O.S. 1999/3242.
(**4**) O.S. 1997/1840, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1877.
(**5**) O.S. 1995/2089, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/2624.